# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Valley Lodge**

**Ffordd Llanarmon**
**Llanferres**
**Yr Wyddgrug**
**CH7 5TA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

**28 Chwefror 2022**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Valley Lodge

| | |
|---|---|
| Math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion â gofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Roberts Homes North Wales Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 34 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddau |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 5 Rhagfyr 2019 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Mae Valley Lodge yn darparu gofal a chymorth i bobl mewn amgylchedd cynnes a chyfeillgar. Mae'r adeilad yn ddiogel ac yn hygyrch, ac yn derbyn gwelliannau parhaus.

Mae'r staff yn adnabod pobl yn dda, yn rhyngweithio mewn ffordd garedig, ofalgar a pharchus, ac yn darparu cymorth pan fydd ei angen ac yn y ffordd mae pobl yn ei hoffi. Mae iechyd pobl yn cael ei gefnogi'n dda trwy waith rhyngasiantaethol da gyda gweithwyr iechyd proffesiynol. Mae cynlluniau personol yn nodi sut mae pobl yn hoffi i'w hanghenion unigol gael eu diwallu. Cedwir pobl yn ddiogel trwy fesurau diogelwch da, gan gynnwys rheoli heintiau.

Yn gyffredinol, mae rheolwyr yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda. Cynhelir archwiliadau o elfennau allweddol o ofal. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld fel sy'n ofynnol, ond mae angen gwella ychydig ar yr adroddiad a lunnir yn sgil yr ymweliad ac mae angen gwneud adolygiadau ansawdd gofal er mwyn dangos bod goruchwyliaeth drylwyr yn cael ei chynnal. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwr a'u bod yn cael eu goruchwylio. Mae hyfforddiant ar waith i gefnogi datblygiad staff a'u cynorthwyo i wneud eu gwaith yn ddiogel ac yn effeithiol.

## Llesiant

Cefnogir y bobl i gael rheolaeth dros eu diwrnodau o ddydd i ddydd. Ymgynghorir â phobl a'u teuluoedd ynglŷn â sut y maent am gael cymorth. Mae cynlluniau personol yn rhestru eu hanghenion a hoffterau unigol. Gall pobl ddewis ble maen nhw'n treulio eu hamser a faint o'r gloch maen nhw'n codi ac yn mynd i'r gwely.

Mae iechyd corfforol ac iechyd meddwl pobl yn cael eu hyrwyddo. Mae pobl yn mwynhau bwyd maethlon a blasus. Cynhelir gweithgareddau yn rheolaidd, naill ai'n unigol neu gyda grwpiau. Mae pobl yn cael eu cynorthwyo i gael mynediad i'r ardd os dymunant. Mae pobl yn byw mewn amgylchedd sy'n gwella. Mae ffyrdd o wella'r amgylchedd yn cael eu nodi'n barhaus a gweithredir arnynt. Mae byw mewn amgylchedd sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn cyfrannu at lesiant pobl.

Mae'r risg o niwed neu gamdriniaeth i bobl yn cael ei rheoli'n dda. Mae staff yn derbyn hyfforddiant a diweddariadau rheolaidd ynglŷn â diogelu. Mae staff yn deall eu cyfrifoldebau i adrodd unrhyw bryderon. Mae gan bobl sydd mewn perygl o gwympo asesiad yn ei le i leihau eu risg. Mae systemau da ar waith i reoli heintiau yn unol â chanllawiau cenedlaethol cyfredol.

Mae gan bobl berthynas dda ag eraill, ac maent yn derbyn cymorth i gynnal hon. Yn ystod pandemig COVID-19, mae pobl wedi derbyn cymorth trwy ystod o ffyrdd gwahanol i gadw mewn cysylltiad â'r rhai sy'n bwysig iddynt. Gwelsom fod gan bobl berthynas dda â'r staff ac â'i gilydd.

## Gofal a Chymorth

Mae pobl yn derbyn gofal a chymorth sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Caiff anghenion pobl eu hasesu a chynllunnir yn drylwyr ar eu cyfer cyn iddynt gyrraedd y cartref. Mae cynlluniau personol yn drylwyr ac yn dangos bod dewisiadau unigol pobl yn hysbys ac yn cael eu deall. Adolygir cynlluniau personol yn fisol neu pan fo newidiadau ar gyfer anghenion yr unigolyn.

Mae pobl yn derbyn cymorth da gan staff cyfeillgar a pharchus. Gwelsom bobl yn derbyn cymorth fel y disgrifir yn eu cynlluniau gofal. Mae'n amlwg y gall pobl ddilyn eu trefn eu hunain fel y disgrifiwyd. Mae’r staff yn garedig ac yn barchus ac yn darparu gofal mewn modd hamddenol ac yn defnyddio hiwmor pan fo'n briodol. Mae adborth gan bobl a’u teuluoedd yn gadarnhaol iawn am y gofal a’r cymorth y maent yn eu derbyn gydag un unigolyn yn dweud *'Caiff pobl eu cefnogi fel unigolion'.*

Mae pobl yn derbyn cymorth da i gynnal eu hiechyd a'u llesiant. Mae'r cofnodion yn dangos y ceisir cyngor meddygol a chymorth proffesiynol pan fo anghenion pobl yn newid. Mae'r gwasanaeth yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda gweithwyr proffesiynol er mwyn sicrhau y caiff meddyginiaeth ei hadolygu yn unol â'r canllawiau cenedlaethol. Gwnaethom siarad â gweithiwr iechyd proffesiynol a dywedodd fod ganddynt gydberthnasau gweithio da gyda'r gwasanaeth a gofynnir am gymorth mewn da bryd. Gwelsom fod siartiau cymeriant bwyd a hylifau yn cael eu defnyddio i fonitro pobl sydd mewn perygl o golli pwysau a dadhydradu. Mae pobl yn derbyn y feddyginiaeth sydd ei hangen arnynt. Mae archwiliadau meddyginiaeth yn gwirio bod prosesau’n ddiogel a bod y staff yn gymwys ym mhob agwedd ar ymdrin â meddyginiaeth pobl. Gall pobl fwynhau ystod eang o weithgareddau i gynorthwyo eu lles meddyliol. Cynhelir rhai gweithgareddau ar gyfer grwpiau, gan gynnwys canu a dawnsio, celf a chrefftau. Mae pobl eraill yn elwa ar amser un-i-un, gan gynnwys tyliniad o'r wyneb a'r traed yn ogystal â sgyrsiau hel atgofion.

Mae diogelwch pobl yn cael ei gynnal yn dda. Mae gan y gwasanaeth systemau da ar waith i sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth, trwy hyfforddiant rheolaidd a pholisïau hygyrch. Mae systemau rheoli heintiau yn dda, ac mae ystod eang o fesurau ar waith i sicrhau bod pobl yn ddiogel rhag COVID-19. Mae hyn yn cynnwys profi ymwelwyr i'r cartref, yn ogystal â defnydd da o gyfarpar diogelu personol gan staff ac ymwelwyr.

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal a chymorth i bobl mewn amgylchedd sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae cyfleusterau ac offer yn hyrwyddo canlyniadau personol yn effeithiol. Mae'r amgylchedd cyffredinol yn groesawgar ac yn lân. Mae rhai ardaloedd cymunol ac ystafelloedd gwely wedi cael eu hailaddurno. Gall pobl ddewis lle i dreulio eu hamser, boed hynny yn eu hystafelloedd eu hunain sy’n cynnwys eitemau personol, neu mewn ardaloedd cymunol neu yn yr ardd. Pan fydd y tywydd yn caniatáu, mae modd cynnal ymweliadau awyr agored mewn amgylchedd dymunol. Mae mwy o waith wedi'i drefnu ar gyfer gwella'r amgylchedd allanol.

Mae iechyd a diogelwch y cartref yn cael eu rheoli'n dda. Mae offer yn cael eu gwirio a'u cynnal i sicrhau eu bod yn ddiogel, yn unol â deddfwriaeth. Mae mesurau rheoli heintiau da ar waith, ac mae polisïau ac archwiliadau wedi'u diweddaru i sicrhau eu bod yn unol â chanllawiau a deddfwriaeth genedlaethol gyfredol. Mae yna dîm sy'n glanhau bob dydd, gan ddilyn amserlenni cynhwysfawr a chanllawiau cyfredol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff pobl eu cynorthwyo gan staff sy'n addas ac yn gymwys. Mae prosesau recriwtio da yn sicrhau bod staff â chymeriad da i weithio yn y gwasanaeth. Mae staff yn derbyn ystod eang o hyfforddiant gorfodol ac mae'r holl hyfforddiant yn gyfredol. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o hyfforddiant er mwyn cyflawni eu rôl. Maent yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd sy'n eu cynorthwyo ac sy’n gwella arferion da. Mae’r staff yn hoffi gweithio yn Valley Lodge ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwr. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd sy'n ymdrin ag amrywiaeth o faterion ac yn hyrwyddo dull gweithio fel tîm cyson.

Mae gan y gwasanaeth prosesau da ar gyfer sicrhau ansawdd. Mae gan y rheolwr archwiliadau ar waith fel y gall fonitro agweddau allweddol ar ofal – er enghraifft, meddyginiaeth, iechyd a diogelwch a hylendid bwyd. Mae'r archwiliadau a welwyd yn dangos bod y cartref yn gweithredu'n dda. Dywedodd teuluoedd wrthym fod y rheolwr yn hawdd mynd ati, yn gosod safon dda ac maent yn teimlo ei bod hi'n gwrando arnynt. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth bob tri mis. Mae adroddiadau ymweliad yr unigolyn cyfrifol yn dangos goruchwyliaeth o rai agweddau ar y gwasanaeth, ond ni cheir digon o fanylion ynghylch y ffordd mae'n ymgynghori â phobl a'u teuluoedd. Cynhelir adroddiadau ansawdd gofal bob chwe mis yn ôl yr angen. Fodd bynnag, dylai'r adroddiadau adlewyrchu bob agwedd ar y gwasanaeth a sut mae llesiant pobl yn cael ei gefnogi, y sefyllfa bresennol a mwy o fanylion ynghylch cynlluniau gwella.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 24/03/2022